Gweiddi

# Tasg 1

# Blas ar yr iaith a’r cynnwys

**BLAS AR YR IAITH**

Llysenw ydy’r enw sy’n cael ei roi ar berson gan bobl eraill. Mae dau fath o lysenw yn y darn darllen:

- llysenw ar ffrind neu deulu yn yr ardal. Mae hwn yn aml yn cynnwys ble mae’r person yn byw neu ei waith e.e. Delyth Topia
- llysenw ar athrawon ysgol e.e. Meipan.

Meddyliwch am athrawon a phobl eraill rydych chi’n eu hadnabod ac yna llenwch y colofnau hyn gan geisio rhoi rhesymau:

| LLYSENW RHYWUN RYDYCH YN EI ADNABOD | RHESWM | LLYSENW ATHRO/ ATHRAWES | RHESWM |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**1. Mae’r awdures yn defnyddio idiomau neu briod-ddulliau a chymariaethau neu gyffelybiaethau.**

**Dewiswch 2 idiom/priod-ddull a 2 gymhariaeth/cyffelybiaeth ac eglurwch eu hystyr.**

| IDIOM | YSTYR | CYMHARIAETH | YSTYR |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

2. Caiff llawer o eiriau Saesneg eu defnyddio yn y testun. Dewiswch unrhyw 5 a dywedwch a ydynt yn addas ai peidio.

| GAIR SAESNEG | ADDAS AI PEIDIO? PAM? |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**BLAS AR Y CYNNWYS**

3. Pam, yn eich barn chi, mae'r disgyblion wedi ysgrifennu 'Brad 1282' ar eu baner?

4. Eglurwch pam mae geiriau 'Fy Ngwlad' gan Gerallt Lloyd Owen yn mynd trwy feddwl Robert Aneirin pan mae'n chwifio'r Union Jack. Eglurwch ystyr y pennill yn fanwl.

5. Pa argraff mae'r awdures yn ei roi o'r Saeson? Pam rydych chi'n dweud hyn?

6. Dadansoddwch y mathau o wrthdaro sydd yn y testun ac eglurwch pam mae'r gwrthdaro'n digwydd:

- y disgyblion a'r athrawon

- y Cymry a'r Saeson.

**Tasg greadigol**

Ysgrifennwch ddiweddglo o ddwy dudalen i'r nofel ac yna chwiliwch am gopi o'r nofel i weld sut y gorffennodd Angharad Tomos hi.